Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer cwrs TAR Ieithoedd Tramor Modern (ITM) Uwchradd

Llongyfarchiadau!
Rydych wedi cael eich gwahodd am gyfweliad i astudio rhaglen TAR ITM Uwchradd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd - rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â chi ac i glywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig fel darpar athro ITM uwchradd. Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y bydd gofyn i chi ei wneud ar ddiwrnod y cyfweliad, ac mae hefyd yn rhoi syniad clir i chi o'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro ITM. Mae wedi cael ei ddylunio i'ch helpu i baratoi'n briodol fel bod gennych y siawns orau i lwyddo.

Bydd tair rhan i'r broses gyfweld, ac mae'n bosibl na chânt eu cynnal yn y drefn a nodir.

Rhan 1
Byddwch yn cwblhau profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd a fydd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol, er mwyn asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu yn Saesneg ac yn yr iaith yr hoffech hyfforddi i'w haddysgu. Byddwch yn derbyn yr erthygl hon cyn y diwrnod i baratoi, felly manteisiwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2
Cyflwyniad Unigol – hyd at 5 munud: Dysgu ac Addysgu ITM yn yr 21ain Ganrif.

Bydd disgwyl i chi baratoi cyflwyniad byr er mwyn rhannu eich syniadau ar Ddysgu ac Addysgu ITM heddiw. Mae croeso i chi ddefnyddio'r awgrymiadau isod yn eich cyflwyniad, neu godi eich syniadau eich hunan. Gallwch baratoi nodiadau o flaen llaw i'ch helpu, neu dod ag adnodd / erthygl i gefnogi eich pwyntiau.

Syniadau posibl:

- Beth yw eich profiadau chi o ddysgu iaith fodern hyd yn hyn?
- Gallwch sôn am eich blwydd dramor – sut wnaeth y profiad hwn ddatblygu eich sgiliau fel dysgwr iaith fodern?
- Beth yw gwers ITM effeithiol, yn eich barn chi?
- Beth yw anghenion ein dysgwyr ITM?
- Sut y gallai ymwybyddiaieth ddiwylliannol o'r iaith lle y siaredir yr iaith fod yn ffordd o ysbrydoli ac annog dysgwyr I barhau â'u hastudiaethau o ieithoedd modern?

Gallwch ddod ag adnodd addysgu hefyd i'w chyflwyno, ac I drafod sut y byddech yn ei defnyddio mewn sefyllfa dosbarth ITM.

Bydd cyfle i ateb cwestiynau ar ddiwedd eich cyflwyniad - cyfle i rannu barn a syniadau!

Yn olaf, bydd tasg ysgrifennu byr gennych (15 munud), a fydd yn dangos dy arddull ysgrifenedig yn yr iaith darged yr ydych yn ymgeisio i'w haddysgu.

Bydd **Rhan 3** yn cynnwys cyfweliad unigol byr lle y gallwch egluro'ch rhesymau dros ddod yn athro ITM uwchradd, a dangos eich dealltwriaeth o rôl yr athro mewn lleoliad ysgol brif ffrwd. Bydd cyfle gennych hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud penderfyniad hyddysg. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i sôn am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd, gan fod llawer gennym i'w gynnig i ddarpar athrawon dan hyfforddiant brwdfrydig ac rydym ni, fel chi, yn llawn cyffro am y dyfodol!

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi yn eich cyfweliad a dymunwn yn dda i chi ar gyfer y diwrnod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrraedd 15 munud cyn eich amser dynodedig fel y gallwn ddechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau,

Craig Ellis Howard
Arweinydd y Rhaglen TAR ITM Uwchradd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

TEF Silver Teaching Excellence Framework

FfRhA Arian Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

Arolwg Profiad a Addysgwyd Uwchraddedigion

Postgraduate Taught Experience Survey

Ansawdd addysgu a dysgu 90%

Boddhad â'r cwrs 92%

Boddhad â'r lleoliadau mewn ysgolion 98%

Cyfradd llwyddo 100%

Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn dod o hyd i waith yn y sector (arolwg DHLE 16/17)

Met Caerdydd yw'r darparwr mwyaf ar gyfer y cwrs TAR Uwchradd yng Nghymru ac un o'r darparwyr mwyaf yn y DU. Mae hefyd yn un o ddim ond pedair prifysgol a fydd yn derbyn achrediad ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019. https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu-aga/darparwyr-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru-o-2019.html

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cwrs yn http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx